



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DIM ESGUS PECYN PARTNERIAID RHAGFYR 2021

CALL OUT ONLY PARTNER PACK DECEMBER 2021

llyw.cymru/dimesgus
gov.wales/calloutonly

GWYBODAETH I BARTNERIAID

Y cyd-destun

Rydym yn parhau i glywed adroddiadau am fenywod a merched ifanc yn cael eu haflogyddu'n rhywiol ar strydoedd Cymru. Peidiwch â chamgymryd, mae hwtian, chwibanu, stelcio a gwneud sylwadau rhywiol yn fathau o aflonyddu rhywiol ac ni ddylid eu goddef.

Gellir atal pob math o drais a chamdriniaeth yn erbyn menywod a merched. Mae agweddau a chredoau sy'n cydoddef a normaleiddio ymddygiad camdriniol yn bodoli ar gontinwmm o 'gellwair' a jôcs rhywiaethol i aflonyddu, trais a hyd yn oed llofruddiaeth.

Mae'n rhaid i ni bwysleisio bod yr ymddygiadau hyn yn annerbyniol, yn ddieisiau, yn sarhaus ac yn annerbyniol – ac mae rhai ohonynt yn droseddau. Ni fydd Cymru'n cadw'n dawel am stelcio, aflonyddu rhywiol na chamdriniaeth. Mae angen newid diwylliant fel nad yw aflonyddu rhywiol o unrhyw fath yn cael ei oddef mwyach.

Nod y cam '**DIM ESGUS**' o'n hymgyrch 'Paid â gwneud hwn yn lle i'w ofni' yw ceisio codi ymwybyddiaeth o stelcian, aflonyddu, trais a chamdriniaeth yn erbyn menywod, ble bynnag y bônt. Ar y stryd. Yn y gweithle. Ar-lein. Gartref. Mewn bar. Tra byddant yn ymarfer corff. Ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym eisiau tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael a rhoi cyngor ymarferol i'r rhai a allai fod yn profi aflonyddu rhywiol, stelcian neu gamdriniaeth, neu sydd wedi eu profi. Rydym eisiau helpu pobl eraill sy'n bresennol i adnabod yr ymddygiadau hyn a gweithredu'n ddiogel os byddant yn eu gweld. Rydym eisiau i'r rhai sy'n cyflawni'r ymddygiadau hyn fyfyr ar eu gweithredoedd a sylweddoli eu bod yn annerbyniol. A, phan fydd hynny'n ddiogel, rydym eisiau i gyfoedion herio ymddygiad amhriodol eu ffrindiau.

Pan fydd dynion yn herio ymddygiad camdriniol ac esgusodion, maen nhw'n rhoi cyfle i newid y naratif sy'n niweidio menywod a merched a dynion a bechgyn, bod yn rhan o'r ateb a gweithio i roi terfyn ar drais a chamdriniaeth a hyrwyddo diwylliant o gydraddoldeb a pharch. Maen nhw'n hyrwyddo ymddygiad iach.

Nid yw herio pobl eraill am eu hymddygiad/au camdriniol yn ymwneud â chodi cywilydd arnynt na chychwyn cweryl dig. Mae'n ymwneud ag addysgu ac annog newid mewn agweddau.

Nid yw pobl yr un mod hyderus â'i gilydd wrth herio sylw rhywiol neu ymddygiad amhriodol. Felly, mae'n hanfodol ein bod ni ond yn herio ymddygiadau ac agweddau amharchus neu niweidiol yn y ffyrdd sy'n fwyaf diogel i ni, a phawb sy'n gysylltiedig.

Yr ymgyrch

Mae'r ymgyrch hon yn defnyddio DIM OND fel cyfrwng i herio canfyddiadau a helpu i sbarduno'r newid mewn ymddygiad. Mae'r geiriau DIM OND yn cael eu defnyddio'n aml i esgusodi ymddygiad amhriodol. Fe'u defnyddir gan ddynion wrth sgwrsio i gyfiawnhau eu gweithredoedd. Fe'u defnyddir gan bobl i fychanu ofnau go iawn menywod.

Mae'r ymgyrch hon yn pwysleisio sut mae gweithredoedd sy'n ymddangos yn ddiniwed a ragflaenir gan y geiriau DIM OND yn dod yn fwy sinistr o lawer pan dynnir y geiriau DIM OND.

I fenywod sy'n profi'r ymddygiadau hyn bob dydd, mae'r ymgyrch hon yn dweud wrthynt fod eu hofn yn wirioneddol, a bod cyfiawnhad iddo. Mae'n dweud wrthynt ein bod ni'n eu clywed a'u gweld. Mae'n dweud wrthynt fod yr hyn maen nhw'n ei feddwl, ac yn ei deimlo, yn cael ei rannu.

Yn bwysicaf oll, mae'n dweud wrthynt eu bod yn iawn i feddwl a theimlo fel yna.

Mae arnom angen eich cymorth

Ymgyrch gyfathrebu integredig ar draws Cymru gyfan yw hon, gyda thair ffrwd o weithgarwch rhwng 10 Rhagfyr 2021 ac 20 Mawrth 2022.

Yn ogystal â negeseuon cyffredinol, mae'r ymgyrch hefyd yn canolbwyntio ar ymddygiadau sy'n digwydd yn y nos, wrth ymarfer corff ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rydym yn rhoi hysbysebion ar Spotify, ar y radio, ac ar sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar leoliadau y tu allan i'r cartref fel campfeydd, trenau a bysiau.

Rydym eisiau i bobl gael mwy o wybodaeth drwy ymweld â gwefan yr ymgyrch – llyw.cymru/dimesgus.

Bydd eich cymorth yn caniatáu i ni godi ymwybyddiaeth o'r mater, a'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael, trwy rannu gwybodaeth ar draws eich sianeli a'ch rhwydweithiau. Mae'r pecyn partneriaid hwn yn cynnwys yr asedau creadigol a'r negeseuon ar gyfer y ffrwd gyntaf, sy'n canolbwyntio ar yr economi nos yn ystod tymor yr ŵyl, pan fydd pobl allan yn dathlu'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu ar gyfer yr ail ffrwd ym mis Ionawr, a fydd yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiadau mewn lleoliadau ymarfer corff, dan do ac yn yr awyr agored, ac ar gyfer y drydedd ffrwd, a fydd yn canolbwyntio ar aflonyddu a brofir ar drafnidiaeth gyhoeddus a phwyslais arall ar yr economi nos.

Diolch am eich cymorth hyd yma.

Rydym wedi cynnwys negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn y pecyn hwn. Os byddwch yn rhannu negeseuon, defnyddiwch hashnod yr ymgyrch #DimEsgus.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, adborth ar ble y rhannwyd asedau creadigol neu os hoffech drafod cyfle penodol i ni rannu'r ymgyrch, cysylltwch â ni ar **VAWDASV@gov.wales**

GALLWCH LAWRLWYTHO ASEDau'R YMgyrch YMA.

INFORMATION FOR PARTNERS

The context

We continue to hear accounts where women and young girls are sexually harassed on the streets of Wales. Make no mistake, catcalling, wolf whistling, stalking and making sexual comments are forms of sexual harassment and should not be tolerated.

Violence and abuse against women and girls in all its forms is preventable. Attitudes and beliefs that condone and normalise abusive behaviour exist on a continuum from sexist jokes and 'banter' through to harassment, rape and even murder.

We must make it clear that these behaviours are unacceptable, unwanted, offensive and objectionable – and some are criminal offences. Wales will not be a bystander to stalking, sexual harassment or abuse. There needs to be a culture change so that sexual harassment in all its forms is no longer tolerated.

The 'Call out **ONLY**' phase of our 'Don't make this a place of fear' campaign aims to raise awareness of stalking, harassment, violence and abuse against women wherever they are. In the street. In the workplace. Online. At home. In a bar. While exercising. On public transport.

We want to highlight the support available and provide practical advice for those who may be experiencing, or have experienced, sexual harassment, stalking or abuse. We want to help bystanders recognise these behaviours and take safe action if they witness them. We want those inflicting these behaviours to reflect on their actions and realise they're unacceptable. And, when it is safe to do so, we want peers to call out their friends' inappropriate behaviours.

When men call out abusive behaviours and excuses, they provide an opportunity to change the narrative that harms women and girls and men and boys, be part of the solution and work to end violence and abuse and promote a culture of equality and respect. They are advocating healthy behaviours.

Calling out others on their abusive behaviour/s is not about humiliating or shaming them, or engaging in angry altercations. It's about educating and encouraging a change in attitudes.

Everyone has different levels of confidence when it comes to challenging a sexist comment or inappropriate behaviour. Therefore, it is vital that we only call out disrespectful or harmful behaviours and attitudes in ways that are safest for ourselves, and everyone involved.

The campaign

This campaign uses ONLY as the vehicle to challenge perceptions and help drive the change in behaviour. The word ONLY is frequently used to excuse inappropriate behaviour. It gets used in conversation by men to justify their actions. It gets used by people to dilute women's genuine fears.

This campaign highlights how seemingly innocuous actions that are preceded with the word ONLY become altogether more sinister when the word ONLY is removed.

For women who are subjected to these behaviours every day, this campaign tells them that their fear is real, and it is justified. It tells them that we hear them and see them. It tells them that what they're thinking, and feeling, is shared.

Most importantly, it tells them that they are right to think and feel the way they do.

We need your support

This is a pan-Wales, integrated communications campaign with three bursts of activity between 10 December 2021 and 20 March 2022.

As well as generic messaging, the campaign also focuses on behaviours that happen at night-time, while exercising and on public transport. We are running adverts on Spotify, radio, and digital and social media channels. We are also focusing on Out of Home settings such as gyms, trains and buses.

We want people to find out more by visiting the campaign website – gov.wales/calloutonly.

Your help will allow us to raise awareness of the issue, and the support and advice that is available by sharing information across your channels and networks. This partner pack includes the creative assets and messaging for burst one, which focuses on the night-time economy during the festive season, while people are out and about celebrating Christmas and New Year.

Further information will be provided for burst two in January, which raises awareness of these behaviours in exercise settings, both indoors and outdoors, and for burst three, which will focus on harassment experienced on public transport and another focus on the night-time economy.

Thank you for your support so far.

We have included social media messaging in this pack. If you share messages, please use the campaign hashtag #CallOutOnly.

If you have any questions, feedback on where creatives have been shared or would like to discuss a specific opportunity for us to share the campaign, please contact us at **VAWDASV@gov.wales**

YOU CAN DOWNLOAD CAMPAIGN ASSETS [HERE](#).

ASEDAU'R YMGYRCH

Mae asedau ar gyfer yr ymgyrch wedi cael eu creu ac maen nhw ar gael i chi eu lawrlwytho i'w rhannu â'ch rhwydweithiau. Byddwn yn diweddarau'r asedau ar gyfer ffrydiau dau a thri wrth iddynt gael eu datblygu.

Postiadau cyfryngau cymdeithasol organig (negeseuon cyffredinol)

Twitter

DIM OND CHWIBANU AR EI HÔL WNES I
DIM OND SLAPIO EI PHEN-ÔL WNES I
DIM OND EI DILYN HI WNES I
DIM OND EI THREISIO HI WNES I

Ni ddylai **DIM OND** fod yn unrhyw un o'r brawddegau hyn.

Dim ond? Dim esgus.

#DimEsgus



Facebook

DIM OND CHWIBANU AR
EI HÔL WNES I
DIM OND SLAPIO EI
PHEN-ÔL WNES I
DIM OND EI DILYN HI WNES I
DIM OND EI THREISIO HI WNES I

Ni ddylai **DIM OND** fod yn unrhyw un o'r brawddegau hyn.

Dim ond? Dim esgus.

#DimEsgus



Animeiddiedig

DIM OND chwibanu
ar ei hôl wnes i

DIM OND slapio ei
phen-ôl wnes i

DIM OND ei dilyn hi
wnes i

DIM OND ei threisio hi
wnes i



CAMPAIGN ASSETS


Campaign assets have been created and are available for you to download to share with your networks. We will update the assets for bursts two and three as each is developed.

Organic social media posts (general messaging)


Twitter



Facebook



Animated




YOU CAN DOWNLOAD
CAMPAIGN ASSETS **HERE**.

ASEDAU'R YMGYRCH

GALLWCH LAWRLWYTHO
ASEDAU'R YMGYRCH **YMA**.

Postiadau cyfryngau cymdeithasol organig (negeseuon economi nos)

Twitter



Facebook



Animeiddiedig



CAMPAIGN ASSETS

YOU CAN DOWNLOAD
CAMPAIGN ASSETS **HERE.**

Organic social media posts (night-time economy messaging)



Twitter



Facebook



Animated



POSTIADAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rydym wedi llunio rhai postiadau cyfryngau cymdeithasol i'ch helpu i gefnogi'r ymgyrch ar draws eich sianeli. Os byddwch yn rhannu negeseuon, tagiwch ni a chynnwys ein hashnod #DimEsgus. Mae croeso i chi deilwra'r rhain i'ch cynulleidfa. Sylwch ar yr eiconau nesaf at bob postiad sy'n dangos os yw hyd y postiad yn addas ar gyfer Facebook, Twitter, neu'r ddau.

NEGESEUON CYFFREDINOL



Paid â bod yn rhan o'r broblem.

Mae dynion yn aml yn dweud DIM OND i gyfiawnhau aflonyddu rhywiol a bychanu ofnau go iawn menywod.

Pan fydd dynion yn dweud does dim esgus am yr ymddygiad hwn, maen nhw'n helpu i newid y naratif sy'n niweidio menywod a dynion.

 llyw.cymru/dimesgus #DimEsgus



Nid yw aflonyddu rhywiol byth yn dderbyniol ac ni ddylai gael ei fychanu. Os wyt ti'n ei weld neu'n ei glywed, paid cadw'n dawel.

 Dysga fwy am sut i wneud hyn yn ddiogel yn llyw.cymru/dimesgus #DimEsgus

SOCIAL MEDIA POSTS

We've put together some social media posts to help you support the campaign across your channels. If you share messages, please tag us and include our hashtag #CallOutOnly. Please feel free to tailor these for your audience. Please note the icons next to each post which show if the length of the post is suitable for Facebook, Twitter, or both.

GENERAL MESSAGES



Don't be part of the problem.

The word ONLY is often used by men to justify sexual harassment and to belittle women's genuine fears.

When men call out this behaviour, they help to change the narrative that harms both women and men.

 gov.wales/calloutonly #CallOutOnly



Sexual harassment is never ok and shouldn't be downplayed. If you see or hear it, call it out.

 Find more information on how to do this safely at gov.wales/calloutonly #CallOutOnly



Pan fydd dynion yn herio ymddygiad camdriniol ac esgusodion, maen nhw'n helpu i newid y naratif sy'n niweidio menywod a dynion.

Bydda'n rhan o'r ateb a helpa i hyrwyddo diwylliant o gydraddoldeb a pharch.

■ Cer i llyw.cymru/dimesgus i gael mwy o wybodaeth. #DimEsgus



Oeddet ti'n gwybod bod chwibanu a hwtian yn fathau o aflonyddu rhywiol? Y rheswm yw bod yr ymddygiad hwn yn gallu achosi ofn, braw neu ofid.

Wyt ti eisiau bod yn fwy cefnogol i fenywod neu newid dy ymddygiad? Cer i llyw.cymru/dimesgus i gael gwybod sut. #DimEsgus



Wyt ti'n pryderu am dy ymddygiad tuag at fenywod?

Cofia mai ti sy'n dewis sut i ymddwyn, ac y galli di ddewis newid. Mae pobl y galli di siarad â nhw a chymorth y galli di gael gafael arno.

■ Cer i llyw.cymru/dimesgus i gael mwy o wybodaeth. #DimEsgus



Mae llawer o ddynion eisiau bod yn fwy cefnogol i fenywod ond dydyn nhw ddim yn hyderus nac yn sicr sut i wneud hynny.

Fe allai di ddod yn fwy cefnogol trwy beidio â chyflawni, esgusodi nac aros yn dawel am gamdriniaeth a thrais gan ddynion yn erbyn menywod. Heria ymddygiad amhriodol.

llyw.cymru/dimesgus #DimEsgus



Rydyn ni'n sylweddoli nad yw pobl yr un mor hyderus â'i gilydd o ran herio sylwadau rhywiol neu ymddygiad amhriodol.

Heria ymddygiad amharchus neu niweidiol mewn ffyrdd sy'n ddiogel i ti ac eraill yn unig.

Mae cyngor ar gael yn llyw.cymru/dimesgus #DimEsgus



When men call out abusive behaviour and excuses, they help to change the narrative that harms both women and men.

Be part of the solution and help to promote a culture of equality and respect.

■ Visit gov.wales/calloutonly for more information. #CallOutOnly



Did you know that wolf whistling and catcalling are both forms of sexual harassment? That's because these behaviours can cause fear, alarm or distress.

Want to become a better ally to women or change your behaviour? Visit gov.wales/calloutonly to find out how. #CallOutOnly



Are you concerned about your behaviour towards women?

Remember that the way you behave is a choice, and you can choose to change. There are people you can talk to and support that you can access.

■ Visit gov.wales/calloutonly for more information. #CallOutOnly



Many men want to become better allies to women but lack the confidence or are unsure how to.

You can become a better ally by not committing, excusing or remaining silent about male abuse and violence against women. Call out inappropriate behaviour.

gov.wales/calloutonly #CallOutOnly



We recognise that people have different levels of confidence when it comes to challenging sexist comments or inappropriate behaviour.

Only call out disrespectful or harmful behaviour in ways that are safe for you and others.

Get advice at gov.wales/calloutonly #CallOutOnly

YR ECONOMI NOS



Mae chwibanu, hwtian a sylwadau rhywiol dieisiau i gyd yn enghreifftiau o aflonyddu rhywiol.

Os wyt ti'n gweld unrhyw un o'r pethau hyn ar noson allan, gwna safiad a heria nhw'n ddiogel. Nid yw ymddygiad o'r fath byth yn dderbyniol, hyd yn oed pan fydd alcohol yn gysylltiedig.

[llyw.cymru/dimesgus](#) #DimEsgus



Mynd allan y penwythnos hwn? Bar, clwb, gig neu ddigwyddiad?

Cofia nad yw aflonyddu rhywiol byth yn dderbyniol ac na ddylai gael ei fychanu. Os wyt ti'n ei weld neu'n ei glywed, rho wybod amdano neu heria fe.

📺 Cer i [llyw.cymru/dimesgus](#) i gael mwy o wybodaeth. #DimEsgus



Beth alli di ei wneud i helpu menywod i deimlo'n fwy diogel ar noson allan?

- ➔ Herio ymddygiad amhriodol
- ➔ Parchu gofod personol pobl
- ➔ Cynnig hebrwng dy ffrindiau benywaidd adref

📺 Cer i [llyw.cymru/dimesgus](#) i gael gwybod mwy. #DimEsgus

NIGHT-TIME ECONOMY



Wolf whistling, catcalling and unwanted sexual comments are all examples of sexual harassment.

If you witness any of these things on a night out, take a stand and call them out safely. This kind of behaviour is never ok, even where alcohol is involved.

[gov.wales/calloutonly](#) #CallOutOnly



Out and about this weekend? A bar, club, gig or event?

Remember that sexual harassment is never ok and shouldn't be downplayed. If you see or hear it, report it or call it out.

📺 Go to [gov.wales/calloutonly](#) for more information. #CallOutOnly



What can you do to make women feel safer on a night out?

- ➔ Call out inappropriate behaviour
 - ➔ Respect people's personal space
 - ➔ Offer to walk your female friends home
- 📺 Visit [gov.wales/calloutonly](#) for more. #CallOutOnly

DIOLCH AM EICH CYMORTH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, adborth neu os hoffech drafod cyfle penodol i ni rannu'r ymgyrch, cysylltwch â ni ar **VAWDASV@gov.wales**

THANK YOU FOR YOUR SUPPORT

If you have any questions, feedback or would like to discuss a specific opportunity for us to share the campaign, please contact us at **VAWDASV@gov.wales**